Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Astudiaeth gwmpasu ar weithwyr mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop yn y Gymru wledig

Gorffennaf 2006

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Cymru Aberystwyth
1872 The University of Wales

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r astudiaeth gwmpasu hon yn edrych ar niferoedd y gweithwyr mudol o Ganol a Dwyrain Ewrop sy'n byw yn y Gymru wledig, ac ar eu heffaith ar yr economi, y gymdeithas a'r gymuned leol. Rhannwyd yr adroddiad yn bedair adran.

- Adran 1 yw'r cyflwyniad i'r astudiaeth. Mae'n crynhoi sut y cafodd yr Undeb Ewropeaidd ei ehangu yn 2004 ac yn amlinellu hawliau gweithwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop i weithio a byw yn y DU.

- Mae adran 2 yn cyflwyno data am niferoedd a nodweddion gweithwyr o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn sy'n byw yn y Gymru wledig.

  Mae'r ystadegau wedi'u casglu o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr, sy'n mesur faint o wladolion o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn sy'n gweithio yn y DU. Mae'r ffynhonnell hon yn darparu data ar niferoedd a nodweddion gweithwyr mudol, gan gynnwys eu cenedligrwydd, eu rhywedd, eu galwedigaeth a'r sector y maent yn gweithio ynddo.

  Cofrestrodd cyfanswm o 4934 o bobl sy'n byw yn y Gymru wledig gyda'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr rhwng Mai 2004 a Mawrth 2006.

  Mae yna gyfyngiadau o ran defnyddio'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr i gyfrif gwladolion o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn. Yn benodol, credir nad yw nifer fawr o fudwyr yn cofrestru gyda'r cynllun ac nid yw'n ofynnol 'dadgofrestru'.

- Mae adran 3 yn edrych, o safbwynt swyddogion yr awdurdodau lleol, ar y materion sy'n wynebu gweithwyr mudol sy'n byw ac yn gweithio yn y Gymru wledig.

  Edrychir ar anghenion gweithwyr mudol gan gyfeirio at bum sector: yr economi a chyflogaeth; tai; iaith ac addysg; iechyd; a chymunedau gwledig.

  Cyfeirir at enghreifftiau o fentrau gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n ceisio ymateb i alwadau gweithwyr mudol.

- Mae pedwaredd adran yr adroddiad yn amlinellu rhai casgliadau rhagarweiniol ac yn nodi'r potensial ar gyfer rhagor o ymchwil. Dyma'r casgliadau yn gryno:

  - Ceir amrywio daearyddol arwyddocaol o ran niferoedd y gweithwyr mudol sy'n byw drwy'r Gymru wledig.

  - Mae'r camau sydd wedi'u cymryd gan yr awdurdodau i roi sylw i anghenion y mudwyr yn amrywio'n sylweddol.

  - Mae'n ymddangos bod yr awdurdodau gwledig yn arddel un o dri safbwynt: y rhai sy'n barnu nad oes gweithlu mudol arwyddocaol yn eu hardal; y rhai sy'n ymwybodol o nifer cynyddol o fudwyr economaidd o Ganol a Dwyrain Ewrop ac sy'n cymryd camau i ateb eu hanghenion; a'r awdurdodau sy'n ymwybodol o bresenoldeb gweithlu o wledydd tramor, ond sydd heb gymryd fawr o gamau hyd yn hyn.

  - Disgwylir gweld cynnydd yn niferoedd y gweithwyr mudol yn y Gymru wledig dros y pum mlynedd nesaf, er nad yw hyd a lled y cynnydd yn glir.

  - Mae'n hanfodol bod rhagor o ymchwil yn cael ei wneud i nodi niferoedd, nodweddion a bwriadau'r adran hon o'r boblogaeth, er mwyn i'w galwadau gael eu bodloni ac er mwyn eu cymathu'n llwyr yng nghymunedau gwledig Cymru.

## ADRAN 1: RHAGYMADRODD

Mae ehangu'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004 wedi ymestyn symudedd a rhyddid gweithwyr Ewrop. Mae hyn yn creu canlyniadau penodol i weithwyr o'r wyth gwlad o Ganol a Dwyrain Ewrop sydd wedi'u derbyn - y cyfeirir atynt fel yr A8[1] - ac fe allai effeithio ar farchnadoedd llafur ac economïau ledled Ewrop.

Y bwriad yw y bydd holl ddinasyddion yr UE yn rhydd maes o law i weithio drwy'r diriogaeth i gyd. Does dim rhyddid o'r fath ar gael ar hyn o bryd. Rhoddwyd opsiwn i'r gwladwriaethau a oedd eisoes yn aelodau o ryddfrydoli eu marchnadoedd llafur yn llwyr i weithwyr o'r A8. I ddechrau, yn 2004, dim ond tair gwlad a ymataliodd rhag gosod cyfyngiadau: y Deyrnas Unedig, Iwerddon a Sweden. Er hynny, fe nododd y DU na fyddai gan weithwyr o'r gwledydd hyn hawl i gael budd-daliadau am eu bod heb waith nes eu bod wedi gweithio'n ddi-dor am 12 mis ac y byddai angen iddynt gofrestru ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS).

Mae cyfrif gwladolion o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn sydd wedi symud i fyw a gweithio yn y DU ers 2004 yn anodd ddychrynllyd. Ceir tair prif ffynhonnell ar gyfer ystadegau sy'n darparu niferoedd gwladolion tramor sy'n gweithio yn y DU: Arolwg y Gweithlu, data cofrestru Yswiriant Gwladol, a'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr. Data o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn bennaf sy'n cael ei ddefnyddio yn yr astudiaeth hon i amcangyfrif niferoedd a nodweddion gwladolion o'r A8 sydd wedi symud i'r Gymru wledig ers mis Mai 2004.

Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae swm sylweddol o ymchwil wedi'i gynhyrchu ar weithwyr mudol o'r A8 yn y DU. Ceir rhestr a chrynodeb yn Atodiad 1 o amrywiaeth o adroddiadau allweddol ar y pwnc hwn.

## ADRAN 2: CYFRIF GWEITHWYR MUDOL O GANOL A DWYRAIN EWROP YN Y GYMRU WLEDIG


### 2.1 Gweithwyr mudol yn y DU

Mae'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) yn orfodol ar gyfer gweithwyr o'r A8 sy'n bwriadu gweithio yn y DU am o leiaf fis. Mae angen i'r ceiswyr fod mewn gwaith wrth wneud eu cais, er nad yw'n ofynnol i weithwyr hunangyflogedig gofrestru. Gofynnir am wybodaeth am genedligrwydd y mudwyr, eu hoed, eu rhywedd, eu preswylfa, a oes ganddynt ddibynyddion, enw a lleoliad eu cyflogwr, eu sector cyflogaeth, eu galwedigaeth, eu horiau gwaith a'u cyfradd tâl. Mae'n costio £70 i gofrestru a'r Swyddfa Gartref sy'n gweinyddu'r cynllun.

---

[1] Gwledydd yr A8 yw Hwngari, y Weriniaeth Tsiec, Slofacia, Slofenia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Latfia ac Estonia. Sicrahodd Melita a Chyprus aelodaeth lawn o'r UE yr un pryd ond mae gan eu dinasyddion hwythau fynediad di-rwystr i farchnad lafur yr UE.

**Ffigur 1: Dosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS yn y DU, o fis Mai 2004 i fis Mawrth 2006 (Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Ymaelodi, 2006)**




Rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2006, cafodd 392,000 o geisiadau eu gwneud i'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr. Yn East Anglia yr oedd y nifer uchaf o wladolion o wledydd sydd wedi'u derbyn, ac wedyn Llundain. O holl ranbarthau'r DU, yng Nghymru y gwelwyd y nifer isaf yn cofrestru: sef 9,230, a oedd yn 2% o'r cyfanswm a gofrestrwyd yn y DU, fel y gwelir yn Ffigur 1.

## 2.2 Gweithwyr mudol mewn ardaloedd gwledig

Mae ymchwil gan y TUC (gweler Atodiad 1) yn datgelu bod mwy na 40% o'r gweithwyr o wladwriaethau 'newydd' yr Undeb Ewropeaidd wedi setlo yn siroedd gwledig y DU. Mae hyn yn dangos bod ardaloedd gwledig yn gartref i gyfran arwyddocaol o weithwyr o'r A8, yn wahanol i donnau blaenorol o ymfudo:

> *"These new arrivals are to be found less in big cities of Britain than in smaller towns and rural areas." (TUC, 2004)*


Priodolir nifer fawr y gweithwyr mudol yn yr ardaloedd gwledig (cf. Ffigur 1) i raddau helaeth i atyniadau cyflogaeth cefn gwlad, yn enwedig cynaeafu tymhorol. Nododd adroddiad gan Defra yn 2005: '*Temporary workers in UK agriculture and horticulture'* fod system cyflenwi bwyd y DU yn defnyddio rhwng 450,000 a 611,000 o weithwyr dros dro. O gofio bod llawer o'r gwaith hwn yn anghyson o ran ei natur ac yn wael o ran ei dâl, dibynnir yn fwyfwy ar wladolion tramor yn y sector hwn, a'r rheiny'n aml yn cael eu cyflogi drwy feistri gangiau.

Yn y DU, mae 12% o'r holl wladolion o'r A8 yn gweithio mewn gweithgareddau amaethyddol ac mae 5% yn cael eu cyflogi yn y sector prosesu bwyd. (Gweler Ffigur 2.)

Yn rhanbarth East Anglia y ceir y gyfran uchaf o weithwyr o'r A8 sy'n cael eu cyflogi ym myd ffermio. Mae mwy na 12,000 o weithwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop wedi'u lleoli mewn gweithgareddau amaethyddol, sef 21% o'r holl fudwyr yn y rhanbarth o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn. Yn Ne-orllewin Lloegr, mae 20% o'r gweithwyr ar y WRS wedi'u lleoli mewn amaethyddiaeth, er bod y niferoedd o dan sylw yn llawer llai (5,870).

Mae cyfran y gweithwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi'u derbyn sy'n gweithio ym myd ffermio yng Nghymru gryn dipyn yn is na chyfartaledd y DU, fel y gwelir yn Ffigur 2. Dim ond 3.7% o'r holl weithwyr o'r A8 a oedd wedi cofrestru yng Nghymru rhwng Mai 2004 a Mawrth 2006 a gyflogid yn y sector hwn, sef 270 o unigolion. Mae'r lefelau isel hyn i raddau helaeth yn ffwythiant o gyfansoddiad ffermio yng Nghymru, nad yw'n dibynnu ar weithwyr dros dro neu weithwyr tymhorol yn yr un ffordd ag ardaloedd eraill, yn enwedig yr ardaloedd hynny sy'n ymwneud â chynhyrchu ffrwythau a llysiau. Yn ôl data StatsCymru, dim ond 6376 o weithwyr dros dro a gweithwyr achlysurol a gyflogid yn y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth yn 2004[2].

**Ffigur 2: Cyflogaeth gwladolion yr A8 fesul sector cyflogaeth: yn y DU, Cymru a'r Gymru wledig**




## 2.3 Gweithwyr mudol yn y Gymru wledig

[2] Yn ôl data o Gyfrifiad Amaethyddiaeth a Garddwriaeth mis Mehefin 2004, amcangyfrifir bod 49,500 o lafurwyr tymhorol, llafurwyr achlysurol neu lafurwyr gangiau yn cael eu cyflogi yn Lloegr.

Mae dadansoddiad daearyddol manylach ar ddata'r WRS yn rhoi gwell golwg ar ddosbarthiad gweithwyr mudol yng Nghymru. Mae Ffigur 3 yn darlunio cyfran y cofrestriadau ar y WRS yn ardaloedd Canolfan Byd Gwaith, o'u cymharu â'r boblogaeth o oedran gweithio. Ar sail hyn, dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Mae'r gorllewin (sy'n ymgorffori ardaloedd awdurdodau unedol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion) yn un o un ar ddeg o ardaloedd yr Adran Gwaith a Phensiynau [DWP] yn y DU lle'r oedd mwy nag 1.5% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn wladolion o'r A8.
- Mae gan Wrecsam ac Arfordir y Gogledd rhwng 0.75% ac 1.0% o weithwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop yn eu poblogaeth o oedran gweithio.
- Mae'r Gogledd a Phowys o fewn y chwartel isaf o ardaloedd, gyda rhwng 0.25% a 0.5% o weithwyr wedi'u cofrestru ar y WRS ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio yno.

O'r data hwn, gellir nodi bod gweithwyr mudol yn gyfran fwy o'r boblogaeth sy'n gweithio yn ardaloedd gwledig Cymru nag yn yr ardaloedd trefol a'r cymoedd. Gellir gweld:

- bod gweithwyr mudol o'r A8 yn llai na chwarter o un y cant o'r boblogaeth o oedran gweithio ym Mae Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Chymoedd y Dwyrain.

- bod gweithwyr ar y WRS yng Nghaerdydd a'r Fro yn ffurfio rhwng 0.5% a 0.75% o'r boblogaeth sy'n gweithio.


Mae Arsyllfa Wledig Cymru wedi llunio rhagor o ystadegau ar niferoedd a nodweddion gweithwyr mudol sydd wedi cofrestru ar y WRS yn y Gymru wledig. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i nodi ardaloedd gwledig er mwyn llunio'r data wedi'i hamlinellu ym Mlwch 1.

**Blwch 1: Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrif gweithwyr mudol o'r A8 sy'n byw yn y Gymru wledig**

Dewiswyd ardaloedd gwledig Cymru yn unol â Dosbarthiad Trefol - Gwledig SYG ar gyfer Cymru a Lloegr (2004). Mae hwnnw'n categoreiddio wardiau fel gwasgarog neu anwasgarog, gan wahaniaethu rhwng tri math o anheddiad: trefol; trefi a'u cyrion; ac ardaloedd gwasgaredig. Dewiswyd wardiau gwledig drwy ddefnyddio ardaloedd gwasgarog eu poblogaeth a oedd yn cynnwys aneddiadau trefol, trefi a'u cyrion, ac aneddiadau gwasgaredig ac ardaloedd llai gwasgarog eu poblogaeth sy'n cynnwys aneddiadau gwasgaredig.

Dim ond yn ôl ardaloedd cod post y mae data'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr ar gael, ac nid yw'r rheiny'n cyd-fynd â ffiniau wardiau. Barnwyd bod ardaloedd cod post yn 'wledig' os oedd eu craidd yn un o'r wardiau gwledig, fel y'u disgrifiwyd uchod. Arweiniodd hyn at ddosbarthu 118 o ardaloedd cod post yn ardaloedd gwledig (gweler Atodiad 2 i gael map o'r ardaloedd hyn).


**Ffigur 3 Crynodiadau trigolion sydd wedi'u cofrestru ar y WRS yn ôl ardaloedd Canolfan Byd Gwaith (oddi wrth y DWP, 2005)**



Mae'r canlyniadau'n dangos bod 4934 o bobl sy'n byw yn y Gymru wledig wedi cofrestru ar y WRS rhwng Mai 2004 a Mawrth 2006. O'r rhain:

- roedd 63% yn ddynion a 37% yn fenywod.
- roedd y mwyafrif (97%) heb ddibynyddion.
- Roedd dros ddwy ran o dair o Wlad Pwyl, 14% o Slofacia a 5% o Lithwania (gweler Ffigur 4).

**Ffigur 4 Cenedligrwydd gweithwyr mudol o'r A8 yn y Gymru wledig (ffynhonnell: WRS)**




Yn y Gymru wledig, mae'r mwyafrif o weithwyr mudol o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn yn cael eu cyflogi mewn gweinyddiaeth, busnes a rheoli (gweler Ffigurau 2 a 5). Mae'r sector hwn yn gyfrifol am 44% o bawb sydd wedi cofrestru[3]. Mae un ym mhob pump o weithwyr yn cael eu cyflogi mewn gweithgynhyrchu, 15% mewn lletygarwch ac arlwyo, 4% mewn amaethyddiaeth a 4% mewn prosesu bwyd. Mae'r swyddi sy'n cael eu gwneud gan weithwyr mudol yn swyddi llaw isel eu sgiliau yn bennaf. Mae bron hanner yr holl fudwyr (49%) yn disgrifio'u swydd fel 'gweithiwr proses'.

[3] Gallai niferoedd uchel y gweithwyr mudol o'r A8 yn y categori "Gweinyddiaeth, Busnes a Rheoli" fod yn deillio o ddata gwallus. Mae'n debyg bod y byrfodd Saesneg "Man. Services" wedi'i ddehongli fel pe bai'n golygu "manufacturing services", yn hytrach na'r gwasanethau rheoli a fwriadwyd, o gofio bod llawer o'r ymatebwyr yn y grwp hwn yn disgrifio'u swydd fel gweithiwr ffatri neu weithiwr llaw.

**Ffigur 5 Sectorau'r gweithwyr o'r A8 yn y Gymru wledig (WRS)**

| Sector | % o weithwyr o'r A8 | Nifer y gweithwyr |
|---|---|---|
| Gweinyddiaeth, busnes a rheoli | 44.4 | 2181 |
| Gweithgynhyrchu | 21.7 | 1068 |
| Lletygarwch ac arlwyo | 14.6 | 716 |
| Gweithgareddau amaethyddol | 3.7 | 182 |
| Iechyd a meddygol | 3.3 | 163 |
| Prosesu cig | 2.2 | 110 |
| Adloniant a hamdden | 2.1 | 104 |
| Prosesu bwyd arall | 2.1 | 101 |
| Adeiladau a thir | 1.7 | 82 |

## 2.4 Cyfyngiadau defnyddio'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr i gyfrif gweithwyr o'r A8

Ceir sawl cyfyngiad ynglyn â defnyddio'r WRS yn gyfrwng i gyfrif gweithwyr o'r A8 yn y DU. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

1. *Nid yw'n ofynnol dadgofrestru* pan fydd gweithwyr yn ymadael â'r DU. Dim ond data am *fewnlifiad gros* gweithwyr o'r A8 i mewn i'r wlad a welir yn y ffigurau hyn. Nid ydynt yn dangos y llifoedd net na stoc y gweithwyr o Ddwyrain a Chanol Ewrop.

2. Rhagdybir nad yw *cyfran arwyddocaol* o *weithwyr mudol yn cofrestru* gyda'r cynllun. Mae'r rhesymau posibl dros beidio â chofrestru yn cynnwys:
   - cost ormodol y cynllun
   - anfodlonrwydd darparu manylion personol
   - yr angen i anfon dulliau adnabod gyda'r cais
   - diffyg manteision amlwg i'r gweithwyr mudol o gofrestru

   Yn ôl arolwg o 500 o fudwyr o Wlad Pwyl yn Llundain a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil ar Genedlaetholdeb, Ethnigrwydd ac Aml-ddiwylliannedd, dim ond 64% o weithwyr oedd wedi cofrestru ar y WRS. Dywedodd 30% eu bod heb gofrestru a doedd 6% ddim yn ymwybodol o'r cynllun.

   A bwrw bod y ffigur hyn yn gymwys i'r boblogaeth o'r cenhedloedd sydd wedi'u derbyn mewn mannau eraill, *mae'n bosibl bod cynifer ag 8092 o bobl o Ganol a Dwyrain Ewrop yn byw yn y Gymru wledig ers 2004*.

3. Mae'r ystadegau'n cyfeirio at nodweddion y swydd gyntaf y mae'r gweithwyr yn cofrestru ar ei chyfer. *Nid yw'r data'n tueddu i adlewyrchu newidiadau cyflogaeth a lleoliad* sy'n debyg o godi, o gofio bod llawer o weithwyr mudol yn symudol iawn o ran galwedigaeth a daearyddiaeth. Gall aneddiadau trefol sydd â rhwydweithiau trafnidiaeth da gael eu gweld yn fwy atyniadol i fudwyr sy'n symud am y tro cyntaf i'r DU, er y gallent symud wedyn yn sgil cyfleoedd cyflogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol.

## ADRAN 3: BYW A GWEITHIO YN Y GYMRU WLEDIG

Roedd ail ran y gwaith ymchwil hwn yn arolwg ymhlith swyddogion sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol yn y Gymru wledig. Yn yr achos hwn, diffiniwyd y Gymru wledig fel pe bai'n ymgorffori'r naw sir gwbl wledig (Ynys Môn, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd, Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Sir Fynwy) a thri awdurdod sy'n cynnwys ardaloedd gwledig (Wrecsam, Sir y Fflint a Bro Morgannwg). Ceisiwyd cysylltu â thair adran ym mhob awdurdod: datblygu'r economi, gwasanaethau cymdeithasol a thai.

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â niferoedd a nodweddion gweithwyr mudol ym mhob awdurdod; pa effeithiau (cadarnhaol a negyddol) yr oeddent wedi'u cael ar yr ardal; ac a oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd o ganlyniad i fewnlifiad o drigolion o Ganol a Dwyrain Ewrop. Mae trefn y cyfweliadau wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

Yn ychwanegol, roedd y data a gasglwyd yn cynnwys:

- Cyfweliad wyneb yn wyneb gyda gweithwyr Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol y Gogledd (NWREN), a oedd yn rhan o brosiect i wella cynhwysiant cymdeithasol gweithwyr mudol yn y Gogledd.

- Mynychu 'diwrnod casglu gwybodaeth' am weithwyr mudol ym Mhowys.

- Edrych ar erthyglau yn y cyfryngau ynglyn â gweithwyr mudol yn y Gymru wledig.

### 3.1 Yr economi a chyflogaeth

Credid bod cyfraniad gweithwyr mudol at economi Cymru yn gadarnhaol i raddau helaeth. Y farn fwyaf cyffredinol oedd bod gweithwyr o wledydd tramor, o gofio'r cyfraddau diweithdra cymharol isel yn yr ardal a'r ffaith bod mudwyr yn gwneud swyddi 'anodd eu llenwi', yn holl-bwysig i hyfywedd rhai busnesau a sectorau yn y Gymru wledig ac yn fuddiol i'r economi yn ei grynswth.

Cyfeiriwyd at rai hanesion bod mudwyr wedi 'cymryd swyddi'r brodorion'. Nododd un ymatebwr o Sir y Fflint mai ar weithwyr ifanc, anfedrus, 16-19 oed, yr oedd hyn wedi cael yr effaith fwyaf. Yn Sir Benfro dywedwyd bod swyddi amaethyddol tymhorol a oedd ar gael fel arfer i fyfyrwyr yn cael eu llenwi erbyn hyn gan weithwyr o wledydd tramor. Roedd hyn yn awgrymu mai â swyddi anfedrus yr oedd gweithwyr mudol yn ymwneud yn bennaf.

Soniwyd yn gyffredin fod gweithwyr mudol yn ddiwyd ac yn fodlon gweithio oriau hir. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod cyfraddau cynhyrchedd uchel mudwyr wedi annog cyflogwyr i beidio â chyflogi pobl leol. Dywedodd un ymatebwr o'r Gogledd fod cyflogwyr wedi rhoi'r gorau i recriwtio pobl leol am nad oeddent yn cynnig cystal 'gwerth am arian' a'u bod 'yn ddiog', o'u cymharu â phobl o Ddwyrain Ewrop. Yn ôl cynghorydd o Bowys, roedd gweithwyr an-fudol mewn ffatri leol wedi

sylwi bod eu tâl a'u hamodau wedi dirywio wrth i'w cyflogwr ddechrau recriwtio gweithwyr o Wlad Pwyl. Eleni, er enghraifft, penderfynwyd na fyddai codiad tâl.

Un nodwedd gyffredin ymhlith gweithwyr mudol oedd eu bod yn ôl pob tebyg yn fodlon gweithio oriau hir, goddef amodau gwael a gweithio am gyfraddau tâl isel er mwyn codi eu henillion gymaint ag y gallent. Fe allai hynny arwain at eu hecsbloetio. Roedd y rhai nad oeddent yn gwybod fawr ddim Saesneg, a oedd yn gweithio drwy asiantau cyflogi neu feistri gangiau ac a oedd yn anymwybodol o'u hawliau cyflogaeth yn arbennig o agored i niwed.

> *Y prif reswm mae'r swyddi hyn yn cael eu cymryd gan weithwyr mudol yw bod neb arall eisiau eu gwneud nhw: mae'r tâl yn rhy isel, mae'r oriau'n ofnadwy, mae'r amodau'n ofnadwy. Wneith pobl ffordd hyn ddim gwneud y gwaith yma. (NWREN)*

### 3.2 Tai

Bernid bod y mewnlifiad gweithwyr mudol wedi creu canlyniadau ar gyfer y farchnad dai yn y Gymru wledig, a oedd mewn llawer o ardaloedd o dan bwysau arwyddocaol eisoes. Roedd swyddogion tai yn unfryd wrth nodi bod gweithwyr mudol yn cyfrannu at anawsterau lleol o ran tai. Er hynny, cafwyd amrywio sylweddol ar draws yr awdurdodau gwledig o safbwynt i ba raddau y bernid bod hyn yn fater difrifol, ac o ran pa ddulliau a oedd yn cael eu sefydlu i oresgyn rhai o'r problemau. Pynciau llosg penodol oedd:

<u>1. Amodau tai gwael</u>

Bernid bod gordyrru yn gyffredin mewn eiddo a oedd yn gartrefi i weithwyr mudol. Soniwyd am hyn yn gyffredin gan ymatebwyr mewn adrannau tai ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y dystiolaeth wedi'i seilio fel arfer ar hanesion bod sawl un yn byw mewn un ystafell / pobl yn cysgu ar loriau / gwelyau'n cael eu rhannu yn ôl patrymau shifftiau.

> *Mae yna achosion lle mae 12 o bobl mewn un ty …yn cysgu mewn sachau cysgu … ac yn ôl pob tebyg mae llawer o bobl yn cysgu ym mhob ystafell.* (Swyddog awdurdod lleol)

Adrannau iechyd yr amgylchedd sy'n gyfrifol am sicrhau bod llety i'w rentu yn ddiogel ac nad oes yna ordyrru. Er hynny, bernid bod y plismona ar hyn yn aneffeithiol i raddau helaeth. Oni bai bod yna dystiolaeth o ordyrru, nododd un swyddog tai na allai camau gael eu cymryd a'i bod "*yn hawdd iawn iddyn nhw guddio faint o bobl sy'n byw ym mhob ty*." Hyd yn oed pe bai tystiolaeth o'r fath yn cael ei gweld a bod camau'n cael eu cymryd, meddai un swyddog Iechyd Amgylchedd, roedd y broblem yn debyg o gael ei symud i rywle arall, yn hytrach na'i datrys.

<u>2. Tai clwm</u>

I rai gweithwyr o wledydd tramor, roedd eu llety'n cael ei ddarparu gan gyflogwyr, asiantau cyflogi neu feistri gangiau. Roedd mudwyr yr oedd eu tai yn glwm â'u swydd fel hyn yn arbennig o agored i niwed. Roedd rhent yn cael ei dynnu o'u cyflog ac, o gofio nad oedd y llety'n agos fel rheol i'w gweithle (roedd gweithwyr a oedd yn

gweithio yn Cross Hands yn aml yn byw mewn tai yn Llanelli), roedd cludiant hefyd yn cael ei ddarparu gan asiantau - ac roedd rhagor yn cael ei dynnu o'u cyflog. Mewn sefyllfa lle byddai gweithwyr yn colli eu swydd, fe fyddent yn ddigartref hefyd, a hynny heb fawr o rybudd yn aml. Cyfeiriodd llawer o awdurdodau tai at enghreifftiau lle'r oedd gweithwyr mudol yn chwilio am lety brys o dan amgylchiadau o'r fath.

3. Darparu tai fforddiadwy i'w rhentu

Yn ychwanegol at yr amodau tai gwael yr oedd gweithwyr mudol yn eu hwynebu, roedd mewnlifiad o weithwyr mudol mewn rhai ardaloedd yn y Gymru wledig wedi cyfrannu at bwysau ar y farchnad dai. Roedd hyn yn fwyaf nodedig yn y sector rhentu preifat, yn enwedig i deuluoedd a oedd yn chwilio am lety o'r fath, gan fod gweithwyr mudol yn 'cynnig mwy' na nhw, gan wasgu mwy o bobl i bob ty. Roedd tystiolaeth o Sir Benfro yn awgrymu bod cydberthyniad uniongyrchol rhwng cynnydd yn niferoedd gweithwyr mudol (yn gysylltiedig ag adeiladu'r derfynfa nwy) a chynnydd yn y galw am dai cymdeithasol ac mewn digartrefedd ymhlith pobl leol, oedd wedi cael Rhybudd i Ymadael gan eu landlordiaid. Yn Sir Benfro roedd yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymdeithas tai leol i geisio rhoi sylw i faterion o'r fath. Roedd hostel yn cael ei chodi ac roeddent yn edrych ar fathau newydd o dai cymdeithasol i ateb y galw ychwanegol am lety i'w rentu yn yr ardal.

Cynigiodd un Swyddog Tai y gallai llawer o'r problemau llety gael eu hosgoi pe bai gweithwyr o wledydd tramor yn dod i mewn i'r farchnad lafur yn yr un ffordd â phobl leol, a fyddai'n golygu wedyn eu bod yn dod i'r *"farchnad dai yn y ffordd arferol"*. Wrth i weithwyr mudol ddod i arfer â'r systemau llafur a thai yn y DU roedd yn optimistig y byddai hynny'n digwydd, yn enwedig mewn ardaloedd fel y Gymru wledig lle nad oedd y mwyafrif o'r swyddi yn swyddi tymhorol. Er hynny, er mwyn iddyn nhw sicrhau annibyniaeth o'r fath, roedd yn hanfodol bod mudwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor priodol.

### 3.3 Iaith ac addysg

Mae mudwyr sy'n methu siarad Cymraeg neu Saesneg yn wynebu rhwystrau arwyddocaol o ran cyflogaeth, sicrhau gwasanaethau a chymathu yn y gymuned. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gwella sgiliau iaith yn sylfaenol ar gyfer gweithwyr mudol ac yn ceisio rhoi sylw i'w hanghenion.

> *Mae gwella'r iaith yn allweddol i bob dim. Mae'r rhai sy'n siarad Saesneg yn gwybod ble i gael cyngor, maen nhw'n gwybod eu hamodau gwaith ac maen nhw'n gwybod beth i'w ddweud wrth yr asiantaeth gyflogi.* (NEWREN)

Yr argraff gyffredinol a gafwyd oedd bod angen mwy o gyrsiau a fyddai'n rhoi 'sgiliau goroesi'. Roedd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol y Gogledd yn ymwneud â phrosiect wedi'i ariannu gan EQUAL a oedd yn ceisio rhoi sylw i ddarparu cyrsiau ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yn y Gogledd ac adnabod anghenion mudwyr o safbwynt iaith. Crybwyllwyd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cynnal prosiect tebyg yn y Gogledd a'u bod yn edrych ar ddatblygu cyrsiau yn unswydd at anghenion gweithwyr, y cyfeirir atynt fel Saesneg at Ddibenion Penodol (ESP).

Roedd gan rai ymatebwyr yr argraff bod cyflogwyr ac asiantaethau cyflogi yn anfodlon cydweithredu i wella sgiliau iaith gweithwyr. Doedd cyflogwyr ddim yn fodlon iddyn nhw siarad â'u gweithwyr tramor er mwyn asesu lefel eu Saesneg, na hyd yn oed hysbysebu cyrsiau: *"dydyn nhw ddim fe pe baen nhw eisiau iddyn nhw ddysgu Saesneg."* Er hynny, roedd yna enghreifftiau cyferbyniol. Roedd rhyw ddeugain o weithwyr o Wlad Pwyl a oedd yn byw yn Llanybydder ac yn gweithio yn y ffatri prosesu cig lleol yn cael eu hannog i ddilyn cwrs deg wythnos ar 'Saesneg Bob Dydd' a oedd yn cael ei ddarparu ar ôl y gwaith, wedi'i drefnu gan Rwydwaith Dysgu Sir Gaerfyrddin.

Drwy'r Gymru wledig i gyd roedd yna dystiolaeth o gyrsiau iaith, llawer ohonynt wedi'u dylunio'n unswydd ar gyfer gweithwyr mudol. Roedd Coleg Powys yn amcangyfrif bod ganddyn nhw ryw 60 o fyfyrwyr tramor a oedd wedi cofrestru a 30 o ddysgwyr Saesneg rheolaidd. Er hynny, roedd yna heriau cyffredin o ran darparu cyrsiau ar gyfer gweithwyr mudol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o fudwyr yn gweithio patrwm shifftiau gan fynd adref yn rheolaidd ar ymweliadau, ac felly roedd yn anodd iddynt fod yn bresennol yn gyson ar gyrsiau.

- Roedd cyflwyno'r cyrsiau hyn yn gymharol ddrud ac ni allai'r darparwyr ddod o hyd i gyllid i gefnogi cyrsiau priodol ar oedd yn fyr a heb eu hachredu.

- Ar gyfer rhai cyrsiau, roedd ar y myfyrwyr angen rhif Yswiriant Gwladol, a oedd yn atal trigolion newydd rhag dod i'r dosbarthiadau.

Dywedwyd bod diffyg sgiliau iaith yn broblem benodol i amrywiaeth mawr o ddarparwyr gwasanaethau a fyddai'n dod i gysylltiad â mudwyr. Nodwyd bod mudwyr yn aml yn defnyddio cydwladwr oedd â gafael dda ar y Saesneg yn gyfieithydd, er nad oedd hynny'n briodol o dan rai amgylchadiau e.e. mewn achos brys. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd y Frigâd Dân wedi cyfieithu ymadroddion allweddol er mwyn cyfathrebu â Phwyliaid mewn achosion brys. Roedd rhai awdurdodau lleol a rhai o swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn defnyddio'r Llinell Iaith a oedd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

Yn ychwanegol at addysg i oedolion, cyfeiriodd ambell un o swyddogion yr awdurdodau lleol at yr effaith a gâi plant gweithwyr mudol a fyddai'n symud i ardal. Pwysleisiodd Swyddog Cydraddoldebau Sir y Fflint fod angen rhoi gwybod i deuluoedd bod angen cofrestru plant mewn ysgolion, gan nad oedd llawer o rieni'n gwybod bod hyn yn ofynnol o dan y gyfraith. Yn Wrecsam nodwyd bod anawsterau wedi'u gwaethygu am nad oedd gan athrawon fawr ddim gwybodaeth am gefndir addysgol llawer o fyfyrwyr. Nododd Swyddog Addysg o Bowys y cynnydd yn nifer y plant yn y sir oedd heb Gymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf: o 80 o fyfyrwyr 18 mis yn ôl i 143 heddiw. Nid oedd yn amlwg a oedd y rhain i gyd yn blant i weithwyr mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop, ond mae'n debyg bod llawer ohonynt, ac y byddai nifer y plant a fyddai'n dod gyda'u rhieni yn debyg o godi.

### 3.4 Iechyd

Mae'r pynciau llosg wrth gyflwyno gwasanaethau iechyd i weithwyr mudol yn debyg i'r rhai sy'n wynebu sectorau eraill. Mae problemau wedi codi yn sgil y canlynol:

1. Diffyg gwybodaeth o system iechyd y DU

Doedd llawer o fudwyr ddim yn sicrhau triniaeth iechyd hirdymor. Yn rhannol roedd hyn yn cael ei achosi gan ddiffyg gwybodaeth am system iechyd y DU. Ym Mhowys dywedwyd nad oedd cyfran arwyddocaol o weithwyr mudol yn cofrestru gydag ymarferydd cyffredinol.

2. Dim cyfle i weld cofnodion iechyd blaenorol cleifion

Soniodd proffesiynolion iechyd yn Sir y Fflint am anawsterau wrth drin cleifion am nad oeddent yn gwybod am eu hanhwylderau blaenorol, cofnodion eu triniaeth neu eu himiwneiddiadau.

3. Iaith

Roedd cyfathrebu â chleifion oedd heb fawr o grap ar y Saesneg yn peri problemau. Byddai rhai yn dod â chyfaill i fod yn gyfieithydd, er nad oedd hynny'n ddelfrydol os oedd y broblem yn bersonol o ran ei natur. Ym Mhowys roedd ffeil o gyfieithiadau yn cael ei datblygu gan y Bwrdd Iechyd Lleol, a oedd yn cynnwys ymadroddion allweddol. Roedd gwefan Galw Iechyd Cymru hefyd yn cael ei defnyddio, yr oedd rhywfaint ohoni wedi'i gyfieithu i Bwyleg

### 3.5 Rhwydweithiau cymdeithasol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos mai ychydig yn unig o gydadweithio a geid rhwng gweithwyr mudol a thrigolion lleol mewn cymunedau gwledig. Mewn rhai achosion, nodwyd bod rhaniad yn y gymuned wedi dod i'r amlwg mewn trefi sy'n cynnwys poblogaeth fudol o ryw faint. Ran amlaf, pwysleisiai'r ymatebwyr nad oedd y rhaniadau'n creu gwrthdaro.

> *Maen nhw'n cadw at eu hunain, rydyn ni'n cadw at ein hunain …Fyddan nhw byth yn peri trafferth …Does 'na ddim problem … Yr unig broblem yw ein bod ni'n gweld rhaniad rhwng dwy gymuned …Gobeithio y medrwn ni gyd-fyw …Mae yna raniad, nid un cas.* (Cynghorydd)

Roedd fflachiadau o elyniaeth wedi bod rhwng pobl leol a mudwyr yn y Gymru wledig. Roedd drwgdeimlad at weithwyr mudol yn Llanybydder wedi'i grybwyll, ac mewn ardaloedd eraill soniodd ymatebwyr am ambell enghraifft o droseddu neu drais. Roedd un swyddog o'r farn y gallai fod yn broblem nad oedd mewnfudwyr yn cael eu fetio a *"dyn ni ddim yn gwybod beth yw cefndir y bobl yma"*.

Er nad oes tystiolaeth bod cyfraddau troseddau yn uwch am fod nifer fwy o weithwyr tramor yn bresennol, roedd yna ragdybiaeth gref bod mudwyr yn achosi problemau. Nodwyd hyn gan un cynrychiolydd o'r heddlu:

> *Mae yna deimlad mai nhw* [gweithwyr o Wlad Pwyl] *sydd wrthi os byth y bydd unrhyw drwbwl yn yr ardal, ond nage … fel arfer y bechgyn lleol sy wrthi …bob tro mae'r Pwyliaid yn cael y bai.* (cynrychiolydd o'r heddlu)

Credid bod gwella gwybodaeth y trigolion am weithwyr o wledydd tramor yn holl-bwysig, yn enwedig i'r rhai nad oeddent yn dod i gysylltiad â nhw.

> *Mae yna fwy o ragfarn ymhlith pobl sydd erioed wedi cyfarfod â gweithwyr mudol achos maen nhw'n gwrando ar y BNP ac yn darllen y Daily Mail sy'n dweud bod pobl yn dod i ddwyn ein swyddi ni. Pobl ydy'r rhain sy'n dod i wneud swyddi does neb arall eisiau eu gwneud a dydyn nhw ddim yn gweld hynny a dweud y gwir …Os gofynnwch chi i bobl sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, mi gewch chi ymateb cadarnhaol iawn ganddyn nhw.* (NWREN)

**Blwch 2: Tensiwn cymunedol yn y Trallwng**

O ganlyniad i gynnydd yn nifer y gweithwyr o Ddwyrain a Chanol Ewrop yn y Trallwng, mae partneriaeth wedi'i sefydlu i fonitro tensiynau ac, os oes modd, i liniaru arnynt. Roedd y bartneriaeth, o'r new'r 'Grwp Aur', yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Sir, Adrannau Heddlu Powys, PAVO, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Adran Tai Powys a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Ym mis Mehefin 2006, cynhaliwyd diwrnod casglu gwybodaeth i asesu anghenion y gweithwyr mudol yn yr ardal, i nodi'r camau a oedd wedi'u cymryd i'w cefnogi, ac i bwyso a mesur a oedd angen rhagor o gefnogaeth. Daeth rhyw 40 o bobl i'r diwrnod, gan gynnwys cynghorwyr, darparwyr gwasanaethau a swyddogion y cyngor.

Roedd y camau a gymerwyd wedyn yn cynnwys gwella'r ddeialog gyda gweithwyr mudol ac aelodau'r gymuned 'frodorol', a chynhyrchu cynllun gweithredu a datganiad cenhadaeth i sicrhau bod y gymuned yn gydlynol, er gwaethaf y newidiadau demograffig hyn. Os byddai'r rhaglen yn llwyddo, y bwriad oedd cymryd camau tebyg mewn ardaloedd eraill ym Mhowys lle'r oedd nifer fawr o weithwyr mudol.

Roedd sawl awdurdod wedi cynhyrchu, neu wrthi'n cynhyrchu, dogfennau 'chwalu mythau' i geisio rhoi atebion i gwestiynau cyffredin am fudwyr economaidd (e.e. Wrecsam, Sir y Fflint). Roedd eraill yn gweithio gyda swyddogion cydraddoldeb a swyddogion cydlyniant cymdeithasol (e.e. Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin), i oresgyn tensiynau. O ran cymorth, roedd yn ymddangos bod yna deimlad cryf y dylid canolbwyntio'r sylw a'r gweithredu ar sicrhau cymunedau gwell a mwy diogel i bawb, yn hytrach na thrin gweithwyr mudol a oedd yn byw yn y Gymru wledig fel problem yr oedd angen rhoi sylw iddi.

## ADRAN 4: CASGLIADAU AC YMCHWIL AT Y DYFODOL

### 4.1 Casgliadau

Yn y Gymru wledig, roedd presenoldeb gweithwyr mudol a'r mecanweithiau cynnal a oedd ar waith yn amrywio'n sylweddol ledled y rhanbarth. Gellid dosbarthu'r awdurdodau lleol i un o dair sefyllfa. Mae'r sefyllfaoedd hynny'n adlewyrchu i ba raddau yr oedd gweithlu mudol wedi'i adnabod yn yr ardal ac i ba raddau yr oedd strwythurau cynnal wedi'u datblygu i ateb eu hanghenion:

1. **Absennol –** Ni fernid bod gweithlu arwyddocaol o fudwyr yn ardal yr awdurdod lleol.

2. **Anweladwy -** Roedd gweithwyr tramor yn bresennol, ond doedd dim llawr o wybodaeth am eu niferoedd a'u nodweddion a doedd dim camau'n cael eu cymryd i ateb anghenion y grwp hwn o drigolion. Er enghraifft, dywedodd swyddog datblygu economaidd o Sir Ddinbych: *"Dwi ddim yn ymwybodol o unrhyw wasanaethau penodol sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ar eu cyfer nhw... Dwi ddim yn meddwl bod ganddyn nhw unrhyw anghenion penodol a dweud y gwir."*

3. **Gweladwy** - Awdurdodau a oedd yn ymwybodol bod nifer arwyddocaol a chynyddol o fudwyr yn bresennol yn eu tiriogaeth ac a oedd yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion.

Mae ail adran yr adroddiad hwn yn nodi mai mater cymhleth yw sicrhau gwybodaeth am y gweithlu mudol ac, mewn llawer o achosion, mater anwadal. Mae'r awdurdodau lleol 'gweladwy' yn benodol yn ceisio sicrhau data manylach ar y gweithlu mudol yn eu tiriogaeth. Mae angen casglu a lledaenu data ychwanegol ar weithwyr mudol ledled Cymru, yn y Gymru wledig ac ar y lefel leol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ac enghreifftiau o'r arferion gorau yn nhermau bodloni anghenion mudwyr a'u cymathu mewn cymunedau. I radau helaeth, mae sicrhau gwybodaeth yn dibynnu ar gyfathrebu agored â'r gweithwyr mudol, eu cyflogwyr a'u hasiantaethau cyflogi.

Yn ogystal ag edrych ar y sefyllfa yng Nghymru, mae angen edrych y tu allan i Gymru a dysgu oddi wrth brofiadau mewn rhannau eraill o'r DU, y mae llawer ohonynt yn gweld mewnlifiad llawer mwy o wladolion yr A8 ac sydd wedi bod yn rhoi sylw i'r materion hyn ers cyfnod hirach o amser. Nodwyd hyn gan NWREN, a oedd yn awyddus i fynd ati'n rhagweithiol, yn hytrach nag ymateb pan fyddai problemau'n codi:

> *"Yn lle osgoi'r camgymeriadau a gafodd eu gwneud yn Lloegr, byddwn ni'n eu gwneud nhw hefyd …Maen nhw ymhellach i lawr y lôn achos maen nhw wedi cael eu gorfodi i gymryd camau am fod pethau wedi digwydd …Mae mudiadau fel ni a BEN* [Black Environment Network] *yn ceisio sefydlu'r broses heb inni gael reiat."*

Mae bodloni anghenion gweithwyr mudol yn golygu meithrin ymagwedd sy'n torri ar draws cylchoedd gwaith sectorau, mudiadau ac adrannau. Mae'n holl-bwysig bod cefnogaeth i'r grwp hwn o drigolion yn mabwysiadu strategaeth integredig a fydd yn

rhoi sylw i faterion ac amcanion drwy amrywiaeth o randdeiliaid. Ymhellach, mae'r polisïau a'r rhaglenni'n gweithredu ar wahanol raddfeydd, ac felly mae angen cyd-drefnu'r drefn lywodraethu ar wahanol lefelau.

**4.2 Twf yn nifer y gweithwyr tramor yn y Gymru wledig**

Does dim sicrwydd i ba raddau y bydd y gweithlu mudol yn parhau i dyfu yn y Gymru wledig. Er hynny, y consensws o'r cyfweliadau cwmpasu oedd y disgwylir rhagor o weithwyr o wledydd tramor. O olrhain y tonnau blaenorol o fudwyr, mae'n debyg y bydd nodweddion mudwyr o Ddwyrain a Chanol Ewrop yn newid wrth iddynt ennill eu plwyf mewn cymunedau, dod yn fwy galluog wrth siarad yr iaith a setlo fel unedau teuluol.

Mae penderfyniadau gwleidyddol gan aelodau eraill yr UE yn debyg o effeithio ar niferoedd y mudwyr i Gymru yn y dyfodol. Nid yw'n amlwg eto a yw niferoedd y mudwyr economaidd sy'n dod i'r DU wedi gostwng ers mis Mai 2006, pryd yr agorodd pedair gwlad arall (Sbaen, Groeg, Portiwgal a'r Ffindir) eu marchnad lafur yn llwyr i wladolion yr A8. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwladwriaethau fel yr Almaen ac Awstria sy'n ffinio â'r gwledydd sydd wedi'u derbyn wedi agor eu ffiniau, ond pan fydan nhw'n gwneud hynny, mae'n bosibl y bydd gostyngiad sylweddol yn llif gweithwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop i'r DU a'r Gymru wledig.

Fe allai'r bwriad i dderbyn Romania a Bwlgaria i'r UE ym mis Ionawr 2007 arwain at fewnlifiad arall o weithwyr mudol i'r DU. Pan fydd y Comisiwn wedi pennu'r dyddiad derbyn, bydd aelod-wladwriaethau'r UE yn pennu a fydd trigolion y gwledydd hynny'n wynebu unrhyw gyfyngiadau cyflogaeth. Yn y DU, nid yw'n glir a fydd gan bobl Romania a Bwlgaria hawliau cyflogaeth tebyg i bobl o'r A8. Os bydd ganddynt ryddid i weithio yn y DU, rhagfynegwyd y ceir ton arall o fudwyr o Ddwyrain a Chanol Ewrop, sy'n debyg o effeithio ar y Gymru wledig.

**4.3 Rhagor o ymchwil**

Ymhlith swyddogion yr awdurdodau lleol, dywedwyd yn aml fod angen rhagor o ymchwil ynglyn â'r gweithwyr mudol. Mewn sawl achos, roedd swyddogion yr awdurdodau lleol yn gwybod bod y data sydd ganddynt yn anghyflawn ac yn anghywir, a oedd yn eu hatal rhag rhoi sylw i faterion ar lefel polisi. Dylai rhagor o ymchwil gynnwys:

- Casglu data o Arolwg y Gweithlu a chofrestriadau Yswiriant Gwladol am wladolion yr A8 sy'n gweithio yn y Gymru wledig

- Datblygu data ar lefel leol am weithwyr mudol er mwyn dod o hyd i fannau penodol sy'n cynnwys cyfran arbennig o uchel o drigolion o wledydd tramor

- Cysylltu â'r gweithwyr mudol a'r trigolion mewn mannau lle maen nhw'n byw neu'n gweithio er mwyn dod o hyd i'r materion allweddol sy'n eu hwynebu

- Nodi’r prosesau y mae’n rhaid i’r gweithwyr mudol eu defnyddio i ddod o hyd i waith yn y Gymru wledig a pha ffactorau sy’n dylanwadu ar eu penderfyniad i ddod i’r ardal hon

- Ymchwilio i weld a yw gweithwyr mudol yn bwriadu aros yn y Gymru wledig ac, os ydynt, a ydynt yn bwriadu cael aelodau eu teulu i ymuno â nhw

## ATODIADAU

### Atodiad 1: Ymchwil ar weithwyr mudol

Mae'r astudiaeth gwmpasu hon wedi edrych ar nifer o adroddiadau sy'n rhoi sylw i fudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop yn y DU. Mae'r cyhoeddiadau allweddol yn cynnwys:

- *The impact of free movement of workers from Central and Eastern Europe* (2006) sy'n bapur gweithio a gynhyrchwyd ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r papur yn disgrifio nodweddion allweddol ymfudo o'r A8 i'r DU ers iddynt gael eu derbyn ac yn asesu effaith llifoedd mudwyr ar farchnad lafur y DU.

- Mae'r *Accession Monitoring Report* (2006) yn gyhoeddiad ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EM a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'n darparu data am wladolion yr A8 sydd wedi cofrestru yn y DU rhwng Mai 2004 a Mawrth 2006.

- Mae Cyngor ar Bopeth wedi cynhyrchu adroddiad sy'n amlinellu heriau y mae rhai o'u swyddfeydd gwledig wedi'u hwynebu wrth gefnogi gweithwyr mudol. Mae *Supporting migrant workers in rural areas* (2005) yn portreadu mentrau sydd wedi'u cychwyn er mwyn rhoi gwasanaethau i weithwyr mudol.

- Mae'r Rhwydwaith Dysgu a Sgiliau wedi cynhyrchu astudiaeth ragarweiniol ar *Learning and skills planning and provision for migrants from the accession states* (2006). Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth am gynllunio a darparu addysg a sgiliau i fudwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi'u derbyn i'r UE.


- Mae'r TUC wedi cynhyrchu cyfres o erthyglau ac adroddiadau ar weithwyr mudol. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - *Migrant workers: a TUC guide* (2002)
  - *Propping up rural and small town Britain – Migrant workers from the new Europe* (2004)
  - *Facts about asylum seekers, refugees and migrant workers in Wales* (2005)

- Mae *Changing Status, Changing Lives? The socio-economic impact of EU Enlargement on low wage migrant labour in the UK* yn brosiect ymchwil a ariannwyd gan yr ESRC a Sefydliad Joseph Rowntree. Mae'r prif ymchwilwyr wedi'u lleoli yn y Ganolfan ar Bolisi Ymfudo a Chymdeithas, Prifysgol Rhydychen a Chanolfan Sussex ar gyfer Ymchwil ar Ymfudo ym Mhrifysgol Sussex. Hyd yn hyn, mae'r papurau canlynol wedi'u cyhoeddi:
  - *Fair enough? Central and East European migrants in low-wage employment in the UK (2006)*
  - *Semi-compliance in the migrant labour market (2006)*
  - *Changing status, changing lives? Methods, participants and lessons learnt (2006)*

Mae nifer fawr o astudiaethau ar ardaloedd penodol sy'n edrych ar fewnlifiad mudwyr economaidd ar ranbarthau neilltuol wedi'u cynhyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *The dynamics of migrant labour in South Lincolnshire* (2006). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun cynhwysfawr o weithlu mudol yr ardal wledig hon. Mae'n rhoi sylw i brofiadau a chanfyddiadau defnyddwyr llafur, meistri gangiau, gweithwyr mudol ac aelodau o gymunedau y mae gweithwyr mudol yn byw ynddynt.
- Ariannodd Asiantaeth Datblygu Dwyrain Lloegr adroddiad: *Migrant workers in the East of England* (2005). Mae'n ystyried niferoedd a nodweddion gweithwyr mudol yn Nwyrain Lloegr a'u heffaith ar yr economi lleol.
- Edrychodd adroddiad gan Brifysgol Exeter o dan y teitl *Migrant workers in the South West* (2006) ar gyfraniad gweithwyr mudol at y rhanbarth hwn a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Yn benodol, mae'r adroddiad yn nodi tystiolaeth ynglyn ag arferion da gan fudiadau sydd wedi rhoi cymorth i weithwyr mudol.
- Yn 2004, cyhoeddodd y Sefydliad er Ymchwil ar Wrthdaro *Migrant workers in Northern Ireland.* Nod yr astudiaeth oedd sefydlu trosolwg ar raddfa, cefndir a lleoliad y boblogaeth o weithwyr mudol yng Ngogledd Iwerddon.

**Atodiad 2: Map o ardaloedd codau post sydd wedi'u dosbarthu fel rhan o'r Gymru wledig**



**Atodiad 3: Trefn y cyfweliadau**

Enw’r awdurdod …………………………………………………………………………….

Enw’r ymatebydd ………………………………………………………………………….

Mae Arsyllfa Wledig Cymru yn asesu’r posibilrwydd o wneud gwaith ymchwil yn y dyfodol ar weithwyr mudol yn y Gymru wledig.

Mae gennyn ni ddiddordeb yn benodol mewn gweithwyr o’r gwledydd a gafodd eu derbyn i’r UE yn 2004: Hwngari, y Weriniaeth Tsiec, Slofacia, Slofenia, Gwlad Pwyl, Estonia, Latfia a Lithwania.

Rydyn ni wrthi’n siarad â phob awdurdod lleol yn y Gymru wledig i weld yn gyntaf a oes unrhyw dystiolaeth o weithwyr mudol yn ……… ac, os oes, pa effaith y mae hynny’n ei chael ar

i. yr economi
ii. y gymdeithas / y gymuned
iii. tai

1. Ym mha sectorau y maen nhw’n gweithio?

2. Pa swyddi y maen nhw’n eu gwneud?

3. Ble mae eu gweithle?

4. A ydych chi’n gwybod drwy ba broses y maen nhw’n cyrraedd yma …? (hynny yw meistri gangiau, oes gan y mwyafrif ohonyn nhw swyddi ymlaen llaw?)

5. Pwy ydyn nhw?
   - Rhywedd / Cenedligrwydd / Oedran / Sengl / Medrus?

6. Pa mor hir y maen nhw’n aros?

7. Ble maen nhw'n byw?
  - Oes tai yn cael eu darparu gan eu cyflogwyr?

8. Pa effeithiau y maen nhw'n eu cael ar yr ardal?
  - Cadarnhaol / negyddol

9. Fyddech chi'n dweud bod yna gymunedau o weithwyr mudol?

10. Oes unrhyw ddrwgdeimlad atyn nhw?

11. Ydy'r awdurdod lleol wedi bod yn cymryd unrhyw gamau yn sgil y cynnydd yn nifer y gweithwyr mudol yn yr awdurdod?

12. Ydych chi'n gwybod am unrhyw asiantaethau eraill sydd wedi ymateb i anghenion gweithwyr mudol?

13. Ydych chi'n credu y bydd rhagor o weithwyr mudol yn dod i …(…o gofio bod Romania a Bwlgaria am ymaelodi â'r UE cyn hir)?

14. Beth am weithwyr mudol o wledydd eraill?

15. Allwch chi awgrymu unrhyw un arall y gallwn i siarad â nhw am y pwnc yma?